


% o'r holl weithgaredd yn ystod y chwarter hwn sy'n berthnasol i'r sector cig coch



## Y Rhwydwaith Arddangos

### Rhiwaedog: Gwella effeithlonrwydd oddi ar y borfa

Cynhaliwyd arbrawf pori yn ystod tymor y gwanwyn 2020 ar fferm Rhiwaedog a oedd yn canolbwyntio ar fanteision defnyddio wrea safonol o'i gymharu ag wrea wedi'i ddiogelu. Gwasgarwyd wrea wedi'i ddiogelu a wrea safonol ar wahanol leiniau glaswellt ar gyfradd o 35kg yr erw, gan gyflenwi 32 uned o nitrogen fesul erw (40kgN/ha). Daeth yr arbrawf hwn i'r casgliad fod defnyddio wrea wedi'i ddiogelu yn ystod y gwanwyn yn arwain at gynydd o oddeutu 30% mewn twf glaswellt (2,100kg DM/ha o wrea arferol o'i gymharu â 2,800kg DM/ha o wrea wedi'i ddiogelu).

4 wythnos ar ôl ychwanegu wrea:



Wrea wedi'i ddiogelu:  
Uchder y borfa = 31cm



Wrea arferol:  
Uchder y borfa = 23cm

Roedd elfen arall o'r prosiect yn cymharu cynnyrch silwair o laswellt ar leiniau a oedd wedi cael eu trin gydag amoniwm nitrad o'i gymharu ag wrea wedi'i ddiogelu. Ychwanegwyd 75kg yr erw o wrea o wedi'i ddiogelu ar un llain, ac fe ychwanegwyd 100kg yr erw o amoniwm nitrad (69 uned N/erw) ar lain arall.

Ar ôl asesu'r cynnyrch, daethpwyd i'r casgliad fod defnyddio wrea wedi'i ddiogelu ar gnydau silwair yn arwain at leihad o oddeutu 20% yn nhwf y glaswellt. Mae hyn yn debygol o fod o ganlyniad i gyfnodau sych estynedig (15+ diwrnod sych) yn dadelfennu'r haen amddiffynnol ar y wrea wedi'i ddiogelu.

### Fferm Bryn: Archwilio perfformiad y fenter biff

Prif nod y prosiect ar safle arddangos Bryn yw canfod perfformiad y fenter biff, gan ganolbwyntio ar ba mor gost effeithio yw gwerthu gwartheg stôr o'i gymharu â phesgi gwartheg fel teirw biff.

Ar fferm Bryn, mae'r teirw'n derbyn 1.2t y pen o borthiant o'i gymharu â tharged y diwydiant, sef 1.7t y pen. Mae hyn wedi arwain at gyrraedd pwysau byw cyfartalog o 620kg wrth fynd i'r lladd-dy, a phwysau o 344kg ar y bach ar gyfartaledd, gyda chanran lladd o 55%. Mae 93% o'r carcasau'n cyrraedd gofynion y lladd-dy. Daeth y prosiect hefyd i'r casgliad y byddai modd gwerthu gwartheg 21 diwrnod yn gynt na'r gwartheg stôr, gan arwain at arbedion o oddeutu £1.50 y pen bob dydd wrth gadw'r anifeiliaid dan do.

Daeth y prosiect i'r casgliad bod pesgi llo gwryw fel teirw biff yn ddewis mwy cost effeithiol ar fferm Bryn. O'i gymharu â'r £13,980 y byddai'r anifeiliaid wedi'i sicrhau drwy werthu fel gwartheg stôr, ynghyd â gwerth y gwellt a werthwyd a'r porthiant a gafodd ei fwyta, llwyddodd y busnes i sicrhau £1,600 yn ychwanegu wrth eu magu fel teirw.

O'r 75 llo a anwyd yn ystod gwanwyn 2020, roedd 34 ohonynt yn deirw. Bydd y rhain yn cael eu cyflwyno'n fuan i ddogyn yn seiliedig ar ddefnyddio grawn a dyfir gartref. Pe byddai'r grawn hwn yn cael ei werthu, byddai'n werth £620, fodd bynnag, mae'r cynnydd pwysau byw a geir o ddefnyddio'r grawn hwn werth oddeutu £1,998.

### Cefnllan: Rheoli'r newid o wartheg sugno i fuchod llaeth


Nod y prosiect hwn yw edrych ar ddichonoldeb newid o fenter wartheg sugno draddodiadol i fagu, tyfu a phesgi llo llaeth Angus croes, gyda'r nod o wneud hynny ar system isel o ran costau, yn seiliedig ar laswellt a phorthiant.



Cyrhaeddodd 100 o loi diddwyn Angus croes ar fferm Cefnllan ar ddiwedd mis Ebrill 2020, yn pwysu 140kg ar gyfartaledd. Mae pob un o'r llo wedi cael tag electronig ar ôl cyrraedd y fferm, gan sicrhau bod modd monitro pob llo unigol yn fanwl gywir wrth bwysu'n fisol.

Mae'r llo wedi bod yn perfformio'n dda oddi ar y borfa, gyda'r cynnydd pwysau byw dyddiol (DLWG) cyfartalog ar ddiwedd Awst yn 1.2kg ar gyfer y llo hŷn, a 0.8-0.9kg ar gyfer y llo iau, sydd oddeutu 7-8 mis oed.

Ffigwr 1: Pwysau cyfartalog (kg) ar gyfer llo hŷn ac iau ar fferm Cefnllan



### Glanmynys: Canolbwyntio ar iechyd a pherfformiad defaid

Yn dilyn tymor ŵyna llwyddiannus, cafodd ŵyn eu diddyfnu ar bwysau cyfartalog o 27kg yn 12 wythnos oed. Ar gyfartalog, roedd sgôr cyflwr corff mamogiaid ar ôl diddyfnu yn 2, yr un sgôr a gofnodwyd cyn ŵyna. Er bod anifeiliaid wedi derbyn brechlyn rhag orff, mae wedi creu problemau ymysg ŵyn 2020. Cafodd ŵyn hefyd eu brechu gyda Bravoxin i drin clefyd clostridiol, ond mae colledion o ganlyniad i niwmonia yn dal i ddigwydd. Yn ystod y cyfnod diddyfnu, cafodd 105 o famogiaid eu dewis i'w difa oherwydd oedran, mastitis neu fwrw'r llawes yn bennaf.

Rhodddwyd triniaeth Smart Shot i'r ŵyn yn y gwanwyn, ac mae canlyniadau mis Awst yn dangos bod lefelau elfennau hybrin yn dderbyniol gyda fitamin B12 yn benodol wedi gwella ers rhoi'r driniaeth Smart Shot.

Gwnaed archwiliad ar ôl diddyfnu/cyn troi at yr hwrdd ym mis Awst, a oedd yn cynnwys samplu gwaed mamogiaid i asesu lefelau elfennau hybrin. Cymerwyd samplau gwaed gan y mamogiaid i fonitro lefelau copr, seleniwm, cobalt a sinc. Roedd y canlyniadau'n dangos nad oedd angen rhoi ychwanegion copr, ond byddai ychwanegu seleniwm drwy folws yn fuddiol cyn troi at yr hwrdd. Gallai ychwanegu cobalt a sinc fod yn fuddiol hefyd, ond mae'r gwahaniaeth yn debygol o fod yn fach iawn.

### Gweithdai Iechyd a Lles Anifeiliaid



Gweithdai a gynhaliwyd:

Ymwrthedd Gwrthficrobaidd



Deall Clefyd Johnne



## Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth

Erthyglau technegol a gyhoeddwyd gan y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth:

- DYFODOL TECHNOLEGAU AR GYFER FFRWYTHLONDEB GWARTHEG AC IECHYD LLOI
- PESGI BÎFF GAN DDEFNYDDIO CNYDAU A DYFIR GARTREF
- DEFNYDDIO GWLÂN MEWN COMPOST A DEFNYDDIAU AMGEN ERAILL
- FFACTORAU SY'N EFFEITHIO AR GYNHYRCHIANT DIADELLOEDD DEFAID
- BRIDIO WŶN BENYW

## Gweminarau




Enghreifftiau o'r gweminarau a gynhaliwyd:

- ATAL CLEFYDAU MOCH A SICRHAU'R PERFFORMIAD GORAU POSIBL
- DEFNYDDIO SGÔR CYFLWR CORFF I REOLI IECHYD A PHERFFORMIAD Y DDIADDELL

## EIP

### Lleihau dibyniaeth ar anthelminigau ar gyfer mamogiaid o gwmpas y cyfnod wyna drwy dargedu triniaethau'n fwy effeithiol

Mae rhoi triniaeth llyngyr i wŷn o gwmpas amser wyna yn dal i fod yn arfer cyffredin, ond mae'r prosiect hwn yn ymchwilio a fyddai modd nodi'r wŷn sydd fwyaf ei angen er mwyn lleihau nifer y triniaethau anthelminig diangen. Mae'r prosiect EIP hwn yn cynnwys grŵp o chwe ffermwr sydd eisoes yn defnyddio'r technegau rheoli SCOPS a sgorio cyflwr corff. Drwy adeiladu ar yr arbenigedd hwn, maen nhw bellach yn edrych ar gyfrifon wyau ysgarthol mamogiaid o gwmpas y cyfnod cyn geni ac yn cyfateb hynny gyda lefelau gwrthgyrff yn eu poer. Mae canlyniadau'r cyfnod wyna cyntaf i gael eu monitro yn 2020 yn dangos amrywiaeth sylweddol rhwng ffermydd o ran graddfa, amseriad a hyd y cynnydd cyn geni (y cynnydd mewn niferoedd wyau ysgarthol o gwmpas amser wyna). Gweler y canlyniadau ar gyfer un o'r grwpiau mamogiaid yn y graff isod. Bydd y prosiect yn parhau i gasglu gwybodaeth i weld a fyddai'n bosibl datblygu cyngor wedi'i deilwra i leihau baich wyau llyngyr ar y borfa a lleihau'r defnydd o anthelminigau ar gyfer mamogiaid nad ydynt ei angen.



## Rhaglen Fentora

**19** FFERMWR CIG COCH NEWYDD YN DEFNYDDIO'R RHAGLEN FENTORA

**433**

O FFERMWYR CIG COCH yn cael eu mentora ar hyn o bryd

MAE **83%** O'R RHAIN YN FFERMWYR CIG COCH

MAE **8** O'R RHAIN YN FFERMWYR MOCH

Roedd mentai newydd yn chwilio am gyngor ar amrywiaeth o wahanol bynciau gan gynnwys:

Rheoli'r tir yn gynaliadwy



Meincnodi



## Grwpiau Trafod



Cynhaliwyd

**68**

CYFARFOD GRŴP TRAFOD CIG COCH gyda



**523**

O FYNCHWYR

## Nifer y Grwpiau Trafod Cig Coch: 33

### Astudiaeth Achos

Grŵp Trafod Defaid Dyffryn Hafren

Bu'r cyfarfod digidol hwn yn trafod rôl elfennau hybrin/mwynau mewn uned gynhyrchu wŷn hyfw yng nghwmni Fiona Lovatt o Flock Health.

Roedd 75% o'r grŵp yn cytuno bod dryswch o ran pa fwynau ychwanegol y dylid eu rhoi i wŷn (os o gwbl).

Roedd pynciau trafod yn cynnwys:

- Rheolaeth
- Dŵr
- Porthiant
- Pridd
- Egni
- Clefydau
- Protein

Pan ofynnwyd o ble ac ar ba ffurf yr oedd defaid yn derbyn elfennau hybrin/mwynau, awgrymodd y grŵp y canlynol:

- Porthiant
- Bwydydd/bwcedi/blociau a brynir i mewn
- Drensh/bolws/brechlynnau

Eglurodd Fiona bod perthynas rhwng nifer o wahanol fwynau a dangosodd yr olwyn fwynau. Dylid bod yn ofalus wrth ychwanegu un o'r mwynau i sicrhau nad yw'n effeithio'n negyddol ar gymeriant neu amsugniad un o'r mwynau eraill.

Wrth drafod ffurf ychwanegion, rhybuddiodd Fiona nad oedd pob bolws o'r un ansawdd, a hyd yn oed pe byddant yn cynnwys y mwynau a hysbyseb, nid yw'n golygu o reidrydd y bydd y mwynau hynny'n cael eu rhyddhau i'r rwmn.


Roedd 71% o aelodau'r grŵp yn dweud y byddai ganddynt ddi-ddordeb cynnal archwiliad o'r mwynau, a fyddai'n eu cynorthwyo i ganfod lefelau mwynau ar eu ffermydd, a darparu gwybodaeth i'r busnes ynglŷn â statws y fferm a ph'un a oes unrhyw ddiffygion sydd angen eu cywiro.

## Hyfforddiant

Yn ystod y cyfnod hwn, darparwyd **100** achos o hyfforddiant wyneb i wyneb o fewn y sector Cig Coch.

Mae'r siart isod yn dangos dadansoddiad o'r unigolion a dderbyniodd hyfforddiant fesul categori yn ystod y cyfnod hwn.

### Unigolion a dderbyniodd hyfforddiant fesul categori



Y cyrsiau mwyaf poblogaidd ym mhob categori oedd:

Ceisiadau

GYRRU TRYC CODI TELESGOPIG AR DIR GARW	<b>18</b>
DEFNYDDIO DIP DEFAID YN DDIOGEL	<b>13</b>
CYMORTH CYNTAFYN Y GWEITHLE MEWN ARGYFWNG	<b>12</b>
DEFNYDDIO MEDDYGINIAETH FILFEDDYGOL YN DDIOGEL	<b>11</b>

## E-ddysgu

Rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn:

HEINTIAU NEMATOD MEWN DEFAID



TAFOD GLAS MEWN GWARTHEG A DEFAID



Cliciwch yma i fynd i'r wefan.